# CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS

CLERC: Tom Jones, 22, Endsleigh Road, Hen Golwyn. LL29 9DT Ffôn: 01492 515999 Sym: 07774 833523
e-bost: clerc@betwsdallanelian.org.uk

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YNG NGHANOLFAN GYMUNEDOL, LLANELIAN YN RHOS YN RHOS, AM 7.30y.h. NOS LUN, 5ed O FEHEFIN, 2023.**

**1. CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd, y Cynghorydd John EVANS pawb i'r cyfarfod.

**2. YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Irwedd GRIFFITHS; Glenna HUMPHREY; Bryn JONES; D Gwyn JONES; Gethin OWEN; Hefin WILLIAMS; Goronwy R. WILLIAMS.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Y Cynghorwyr John D ROBERTS; Cynghorwr Sir Ifor G WILLIAMS

**4. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Atgoffer yr aelodau eu bod i ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddiddordebau personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar gyfer hynny. Mae'r Cynghorydd Ifor LLOYD wedi dweud ei fod o'n eistedd ar y pwyllgor cynllunio ac felly na all gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau a wneir ar geisiadau sy'n cael eu trafod, ond y gallai ateb cwestiynau'n ymwneud â rheolau cynllunio a pholisïau.

a. Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb gan unrhyw un.

**5. MUNUDAU**

Cytunwyd i gadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 5ed o Fai, 2023. (Cynnig y Cynghorydd Bryn JONES ac eilwyd gan y Cynghorydd Goronwy WILLIAMS).

**6. MATERION YN CODI**

Item 20 – Unrhyw Fater Arall – ynglun a'r goeden 'Monkey Puzzle'. Cafwyd trafodaeth a'i prynu un newydd oedd yr ateb. Penderfynwyd iw gadael am chydig wythnosau eto I weld os oedd unrhyw dyfiant.

**7. CYLLID**

Cafwyd Adroddiadau Misol am y cyfnod dod i ben 20fed o Fai 2023. Nododd yr aelodau y sefyllfa araiannol a'r adroddiadau banc fel a restrir isod:-

| | | |
|---|---|---|
| (1) | Cyfrif Cymunedol | = £11,364.64 (Dwyn Ymlaen) |
| | Arian i Mewn | = £0.00 |
| | Arian Allan | = £5.00 (Costau Banc - DR) |
| | | = £150.48 (CBSC – Gosod Goleuadau Nadolig – TAL) |

= £405.39 (Cyflog y Clerc – SO)

= £101.40 (Taliad i'r HMRC – SO)
= £300.00 (Betws yn Rhos MC-Eisteddfod Calan Mai-TAL)
= £73.16 (BT–Gosod cyflenwad WiFi i'r Pafiliwn Chwaraeon-TAL)
= £48.80 (BT-Tal misol am y WiFi – SO)

| | | |
|---|---|---|
| | Heb ei Cyflwyno | = Dim |
| | Cyfrif Cymunedol | = £10,280.41 (Cludwyd Ymlaen) |
| (2) | Cyfrif Busnes | = £5,572.49 (Dwyn Ymlaen) |
| | Arian Allan | = £0.00 |
| | Arian i Mewn | = £0.00 |
| | Cyfrif Busnes | = £5,572.49 (Cludwyd Ymlaen) |
| | Cyfanswm | = £15,852.90 |

Cytunodd pawb a'r adroddiadau yma.

## 8. GOHEBIAETH

**i. Derbynwyd**

a. Nodyn wedi ei adael drwy ddrws y Clerc i alw Mr. David Evans, Coed Bodwen, LlanelianLL29 8UY ar 01492 515572/07835388582 ynglun ac anghydfod am wal derfyn cydrhyngddo a'r ty drws nesaf. Galwyd Mr. Evans a cafwyd trafodaeth am y mater.

b. Roedd y Clerc wedi cael galwead ffon gan Mr. Stephen Crowther o Echoes Lodge, 5 Ffordd Dolwen, Betws yn Rhos LL22 8AX – 07887 740744 yn cwyno am gyflymdra y trffig drwy'r pentref. Ac yn gofyn am 'speed bumps' ar y ffordd. Cafwyd trafodaeth am y mater.

c. Ebost gan un o drigolion Betws yn Rhos yn holi am y cais cynllunio yn Bethgeth oedd wedi ei dynu nol. Mae Gwaith yn dal i fynd ymlaen yno.

ch. Trigolion yn holi os oedd CBSC yn meddwl plannu blodau yn y potiau o gwmpas y ddau bentref fel arfer. Roedd llythyr wedi ei yrru'n barod i adran AFFCH y Cygnor Sir.

d..Llythyr i atgoffa y Cyngor am yswiriant gan Zurich, ac hefyd taleb am yr arian a yrwyd.

ad. Ebyst arferol oddi wrth Un Llais Cymru, Gwasanaeth Cyhoeddus Gweithredol ayyb gyda'r rhai perthnasol yn cael ei gyrru mlaen i'r Cynghorwyr. Mae rhain ar gael gan y Clerc.

**ii. Anfonwyd**

a. Sylwadau ar geisiadau cynllunio i Adran Gynllunio CBSC

b. Llythyrau ac ebyst i'r Cynghorwyr yn dilyn negesuon, llythyrau ac ebyst yn dod i law.

c. Ateb i lythyr gan Gymdeithas DemograhtaiddHanes Leol betws a Llanelian ynglun ac ariannu.

ch. Llythyrau i a gan Wasanaeth Ddemocrataidd CBSC ynglun a hyrwyddo a chyfethol aelod ychwanegol i'r Cyngor.

d. Llythyrau i a gan Chwarae Allan Haf 2023 CBSC ynglun a sesiynau yn Betws yn Rhos a llanelian yn Rhos.

dd. Llythyr i Adran AFFCH CBSC ynglun a plannu blodau yn y potiau yn Betws a Llanelian.

e. Llythyr i un o drigolion Betws yn Rhos ynglun a i.c uchod.

## 9. GRANTIAU

**i. Ceisiadau i'r Cygor**

a. Holi ynglun a mynwent Trofarth i weld faint o arian sydd ei angen.

**ii. Ceisiadau gan y Cyngor**

a. Mae CVSC yn awr yn rhoi cymorth i'r Cyngor chwilio am grantiau i gefnogi projectau o fewn y gymuned.

**10. CYNLLUNIO - [http://www.conwy.gov.uk/planningexplorer](http://www.conwy.gov.uk/planningexplorer)**

a. Cyfeirnod: 0/50531 Ymgeisydd: Gareth Williams
Cynllun: Estyn y sied amaethyddol i ddarparu storfa slyri fel y nodir yn natganiad o anghenion y cleient.
Safle: Bethgeth Cill Llidiart Road Betws Yn Rhos LL22 8AG
Mae'r cais yma wedi ei drafod eisioes ac mae pryder oddeutyadroddiad SUDS (mae dwr glan tai cyfagos yn ffynnu o'r cae yma, ac hefyd yr amgylchiad busnes am adeilad o'r maint yma. Mae yna yn awr bryder am newid amodau mewn adroddiad gan y Asiant Amgylchedd.
Mae'r cais yma yn nawr wedi ei dynnu'n ol.

b. Rhif y Cais: 0/50703 Ymgeisydd: Mr. Gethin Jones
Natur y datblygiad: Newid defnydd tir – safle glampio
Lleoliad: Fferm Nant Isa, Ffordd Nentydd, Rhyd y Foel, Betws yn Rhos, LL22 8EF.
Llythyr iw anfon i Adran Cynllunio, CBSC i ofyn os oes cynllun busnes wedi ei wneud, ac hefyd o soes angen mwy o ddatblygiadau o'r math yma yn yr ardal – Polisi TOU/4. Doedd dim Cynllun Busnes wedi ei gyflwyno, ond roedd 'Hyfywdra Busnes' ac 'Adolygiad Sector' wedi ei baratoi. Wedi trafod y mater penderfynwyd am and oedd gormodedd o'r math yhma o safleoedd yn yr ardal na fyddai dim gwrthwynebiad i'r cais.

**11. MATERION ARCHWILIAD MEWNOL AC ALLANOL**

Mae'r Clerc yn nawr yn dechrau ar Archwilaid y flwyddyn ddaeth i ben 31ain o Fawrth 2023. Cafwyd esboniad llawn o'r Datganiad Ariannol Blynyddol ar gyfer y ddau gyfrif ynghyd a Talen Falans gyda esboniad pellach o'r gwahaniaethau ers y flwyddyn ddiwethaf. Roedd yr Asesiad Risg Ariannol a'r Gofrestr Feddianau wedi ei diweddaru. Gobeithir cyflwyno yr Archwiliad ar lein erbyn diwedd yr wythnos gyntaf yn Mis Mehefin.

**12. MATERION CYNGOR SIR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD**

a. Nid oedd y Cynghorydd Lloyd yn y cyfarfod.

**13. CYNNAL A CHADW ADNODDAU ARDAL Y CYNGOR CYMUNEDOL**

a. Arwydd ffordd ar gornel Capel Bach Sion – Mae cais wedi ei wneud i adran AFFCH CBSC i adnewyddu yr arwyddion yma. Mae cais ychwanegol wedi ei wneud erbyn hyn.

b. Cyfarpar chwaraeon i blant iau ar gae chwarae Betws yn Rhos – Mae amcan bris wedi ei dderbyn er mwyn cael syniad o'r costau ac yn awr mae camau yn cael ei cymeryd i chwilio am grantiau. Mae holiadur gymunedol wedi cael ei pharatoi, a gyda chydig o newidiadau bydd yn cael ei dosbarthu I'r gymuned drwy'r Ysgol, meithrinfa, y we a'r byrddau gwybodaeth.

c. Gordyfiant ar lonydd gwyrdd a llwybrau lleol – hyd yn hyn cafwyd dim ymateb am adborth ar gyflwr y llwybrau na dim cynnigion am y Llwybyr Natur. Y Clerc i holi yr Adran AFFCH, Cyngor Conwy os ydynt am blanu blodau yn y potiau yn y ddau bentref.

ch. Yr Hwb - Mae angen gwirfoddolwyr iw gynnal, a bydd ar agor o 9:00yb hyd at 12:00yh bob bore Dydd Mawrth yn y Pafiliwn Chwaraeon yn Betws yn Rhos. Cynnigwyd bod un o'r bobl sydd yn mynychu yn rheolaidd yn edrych ar y darpariaeth.

d. Chwarae Allan Haf 2023. – mae'r Cyngor Cymuned wedi gwahodd Rhaglen Haf Ieuenctid cbsc i ddod i redeg dwy sesiwn ym Metws yn Rhos a Llanelian yn ystod gwyliau'r haf 2023. Bydd y dyddiadau ar gael yn reit fuan.

e. Diffibrilwyr. – Mae archwiliad ar safleoedd a defnydd diffibrilwyr lleol yn cymeryd lle ar y funud a mae'r Cyngor Cymuned yn awyddus i dynu'r pump offer yma o dan yr un to er mwyn medru gweinyddu ei cynnal a'i cadw yn haws. Bydd hyn yn cael ei trafod ymhellach dros yr wythnosau nesaf.

f. Mae trefniadau wedi ei gwneud i adnewyddu y meinciau yn nghanol pentref Betws yn Rhos

g. Mae angen cynnal a chadw y gwlau blodau newydd wrth fynedfa y caeau chwarae yn Betws yn Rhos.

h. Bydd angen trafod ymhellach ynglun a'r toiledau di-ddefnydd yn Betws yn Rhos.

i. Mae angen tocio y coed ar hyd ochor y ffordd rhwng Barron Hill a Trofarth. Bydd cais yn cael ei wneud I Stad Coed Coch ymateb.

**14. YMGYRCH LEOL I REOLI FFERMYDD GWYNT**

Mae y pwnc yma yn cael ei drafod ym mhob cyfarfod o'r Cyngor yma ond anodd iawn iw cymeryd unrhyw gamau pellach heb yna fod gais cynllunio ar gyfer fferm o'r fath yn cael ei gwneud i Gyngor Conwy. Os bydd hyn yn digwydd bydd y Cyngor yn ysgrifennu ar unwaith 'r CJC (Combined Joint Council) pan fydd y corff hwnnw wedi ei fodoli. Mae rhan fwyaf o aelodau y Cyngoe Cymuned am fod yn bresennol yn y cyfarfod lleol yn Neuadd Bentref Betws yn Rhos ar y 13eg o Orffennaf.

**15. LLWYBR NATUR**

Cynigwyd edrych ar yr hen ffordd porthmon ac hefyd yr hen ffordd rufeinig fel posibilrwydd o wneud llwybyr natur yn y fro. Mae angen cael cymorth gan rhywun sydd yn adnabod y llwybrau cyhoeddus lleol ac hefyd yn gwybod ar pa fath o fywyd natur a ddisgwylir iw weld ar hyd y llwybrau. Cynigwyd hysbysu ar y bordiau gwybodaeth, ar daflen we yr ardal ac hefyd gyda'r gymdeithas gerdded yn Y Gadlas. Does dim ymateb wedi bod i'r syniad yma hyd yn hyn. .

**16. CANOLFAN GYMUNEDOL LLANELIAN YN RHOS**

Mae yr eitem yma ar yr agenda er mwyn cadw cofnod o sut mae y gwaith yn dod yn ei flaen, ac er mwyn rhoi cefnogaeth pan y bydd angen. Mae'r cynlluniau yn symud ymlaen yn gyflym ar y funudac edrychwn ymlaen i weld camau positif yn cymeryd lle dros y misoedd nesaf. Mae cais am ddyfynbris newydd wedi ei wneud. Mae chydig o ddiddordeb yn ymddangos i brynu yr hen adeilad a'I symud i ffwrdd.

**17. Y GADLAS**

Bu lluniau o'r 'Diwrnod Hwyl' ymddangos yn Y Gadlas.

**18. CYSIDRO AELOD YCHWANEGOL I'R CYNGOR**

Mae'r hysbysebion angenheidiol  wedi ymddangos ar dudalen we y Cyngor ac hefyd ar bob bwrdd gwybodaeth. Dim ond new a dderbynwyd. Roedd Mrs Gwenda DAVIES yn bresennol yn y cyfarfod hwn. Cynigiodd y Cynghorydd Irwedd GRIFFITHS ei bod yn cael ei derbyn, ac eilwyd gan y Cynghorydd Glenna HUMPHREY. Bu i Mrs Gwenda DAVIES ei chyfethol yn swyddogol fel Cynghorydd ar ward Betws yn Rhos. Bu i'r dogfennau priodol e.e. Derbyniad o'r Swydd, Safonau Ymddygiad, a'r Datganiad Annibynol o Dal, gael ei llenwi a'I llofnodi.

**19. UNRHYW FATER ARALL**
a. Bu i un o frodorion Betws yn Rhos, sef y Doctor Owen WILLIAMS ei goroni fel ennillydd Eisteddfod yr Urdd 2023. Penderfynwyd gael plac wedi ei gwneud a'i roi ar wal y Ganolfan Chwaraeon.
b. Daeth i wybodaeth y Cyngor fod cais wedi ei wneud i Adran Drwyddedu CBSC am ddigwyddiad gerddorol ar stad Coed Coch yr un fath a'r cais gafodd ei wneud flwyddyn yn ol a'r un a gafodd ei gynnal yno heb drwydded yn 2021. Roedd pryderon wedi ei derbyn yn barod gan rai o fusnesau a thrigolion yr ardal yn enwedig am yr oriau hir y bydd yn gweithredu. Roedd y Clerc wedi bod yn ymweld a'r Adran Drwyddedu i gael gweld y cais a nodwyd nad oedd Cynllum Goruchwyliaeth a'r gofynnion penodol eraill i'r digwyddiad wedi ei baratoi. Penderfynwyd paratoi cynrychioliad i'r Adran Drwyddedu yn sgil y cwynion a'r pryderon oedd wedi ei datgan, a'r tebygrwydd y buasai y pedwar gofyniad y trwyddedu ddim yn cael ei Dilyn, a'r diffyg cynllun.
c. Roedd pryderon wedi ei mynegi am losgi gwastraff gaerddi yn y caeau tu cefn i Fwthyn Y Gerddi, Llanelian. Bydd y Clerc yn ysgrifennu i Adran AFFCG y Cyngor Sir.
d. Bydd angen llongyfarch Aloma Wheway a'i thim am y Gwaith called a'r llwyddiant y 'Diwrnod Hwyl Ym Metws yn Rhos yn ddiweddar.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall fe ddaeth y cyfarfod i ben am 9.23y.h.

CADEIRYDD:  ……………………………      John EVANS

CLERK:      ……………………………      Tom Jones      DYDDIAD:  5ed Gorffennaf 2023